
BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

Ymchwil

# Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2022

## Addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, a cholegau ôl-16



Adroddiad arolwg

gan Ian Collen, Minchen Liu
ac Aisling O'Boyle

Tachwedd 2022

wales.britishcouncil.org



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Prif ganfyddiadau 2022 | 5 |
| Cyd-destun polisi a chefndir | 6 |
| Amlinelliad o'r ymchwil | 8 |
| Ffigurau arholiadau cyhoeddus | 9 |
| Canfyddiadau o'r arolwg ysgolion cynradd | 13 |
| Canfyddiadau o'r arolwg ysgolion uwchradd | 22 |
| Edrych ar dueddiadau rhyngwladol dysgu ieithoedd mewn colegau ôl-16 | 32 |
| Casgliad | 36 |
| Llyfryddiaeth gyfeiriadau | 38 |

# Cyflwyniad

**Mae British Council Cymru yn dod â'r gorau o fyd addysg a chelfyddydau rhyngwladol i Gymru, gan gefnogi myfyrwyr, athrawon, artistiaid ac eraill o Gymru i wneud cysylltiadau proffesiynol gyda phobl ledled y byd.**

Mae British Council Cymru yn cyfoethogi bywydau pobl gartref a thramor, gan annog creadigrwydd ac arloesedd drwy gydadwaith rhwng syniadau, sgiliau, a phrofiadau. Mae British Council Cymru yn credu bod siarad iaith ryngwladol yn hanfodol er mwyn deall diwylliant arall ac er mwyn twf a ffyniant hirdymor. Felly, waeth faint o bobl ledled y byd sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg, mae'n dal i fod yn angenrheidiol i ni wneud ymdrech i feistroli Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru.

Arolwg blynyddol o ysgolion a cholegau ôl-16 yw *Tueddiadau Ieithoedd Cymru*, sydd wedi'i ddylunio i gasglu gwybodaeth am sefyllfa addysgu a dysgu ieithoedd. Ei nodau yw: (i) asesu effaith mesurau polisi mewn perthynas â Ieithoedd Rhyngwladol; a (ii) dadansoddi cryfderau a gwendidau yn seiliedig ar gyd-destun presennol addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol, yn seiliedig ar ddata meintiol a safbwyntiau a fynegir gan athrawon. Cynhaliwyd arolwg cyntaf *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yn 2015. Ac eithrio 2020 o ganlyniad i bandemig Covid-19, cynhaliwyd arolwg blynyddol gydag ysgolion uwchradd, ac arolwg bob tair blynedd gydag ysgolion cynradd. Mae adran bwrpasol ar gyfer colegau ôl-16 wedi'i chynnwys yn y blynyddoedd diwethaf hefyd. Mae *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yn rhan o gyfres o astudiaethau rheolaidd sy'n digwydd yn nhair o'r pedair awdurdodaeth yng ngwledydd Prydain.

Ers 2002, cynhelir arolwg blynyddol yn Lloegr, ac ers 2019 cynhelir arolwg bob dwy flynedd yng Ngogledd Iwerddon. Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan British Council y wlad dan sylw. Mae cyfres Tueddiadau Ieithoedd yn unigryw a nodedig yn y ffordd mae'n dangos y tueddiadau cyffredinol mewn dysgu ac addysgu ieithoedd, ac mae'n cynnig sbringfwrdd i athrawon, arweinwyr ysgolion, academyddion, arolygwyr, llunwyr polisïau, disgyblion, a'r cyhoeddi ystyried agweddau ar ddysgu ieithoedd rhyngwladol yn ddyfnach.


Canfu adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2021* fod nifer yr ymgeiswyr TGAU Ffrangeg ac Almaeneg wedi gostwng bron i hanner rhwng 2015 a 2021; ac roedd nifer yr ymgeiswyr Sbaeneg yn afreolaidd. Nodwyd gostyngiadau sylweddol o ran dysgu ieithoedd rhyngwladol eraill, gan nad oedd modd i ddysgwyr mewn ysgolion atodol gael ardystiad yn ystod y pandemig. At hynny, pennwyd bod pandemig Covid-19 wedi cael effaith fwy negyddol ar ddysgu ieithoedd mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol nag mewn ardaloedd eraill.

Eleni, mae British Council Cymru wedi contracio tîm o ymchwilwyr ym Mhrifysgol y Frenhines Belffast i gynnal arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* 2022. Mae'r tîm wedi gweithio ar waith tebyg i'r British Council yn flaenorol, ac mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad o addysgu ieithoedd mewn dosbarthiadau cynradd ac uwchradd yng ngwledydd Prydain a thramor.

Ar ran British Council Cymru a Phrifysgol y Frenhines Belffast, hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r athrawon a gymerodd ran yn ein hymchwil, yn enwedig mewn blwyddyn ysgol arbennig o brysur ac anrhagweladwy wrth i'r wlad ddechrau adfer ar ôl pandemig Covid-19. Heb gyfranogiad athrawon, ni fyddai ein hymchwil yn bosib. Diolch yn fawr.

# Prif Ganfyddiadau 2022

- Roedd 41% o ysgolion cynradd yng Nghymru yn addysgu iaith ryngwladol fel rhan o'r cwricwlwm yn 2021/22, i fyny o 39% yn 2018/19 a 28% yn 2015/16. Serch hynny, mae hyn yn golygu y bydd Ieithoedd Rhyngwladol statudol yn 2022/23 yn newydd i bron i 60% o ysgolion cynradd. Dywedodd un ysgol gynradd ymhob 14 wrthon ni nad ydyn nhw mewn sefyllfa i addysgu iaith ryngwladol yn ystod y flwyddyn academaidd hon, er ei fod bellach yn rhan orfodol o'r cwricwlwm.
- Does gan 64% o'r ysgolion cynradd a ymatebodd (n=95) ddim dimensiwn rhyngwladol; roedd cysylltiadau ag ysgolion partner dramor, prosiectau rhyngwladol, a chynnal cynorthwywyr iaith oll yn absennol. Serch hynny, mae'n galonogol fod y dimensiwn rhyngwladol yn dal i fod yn iach mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16.
- Roedd gostyngiad brawychus rhwng 2021 a 2022 yn nifer yr ymgeiswyr TGAU a Safon Uwch Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Does fawr ddim disgyblion TGAU Cymraeg yn cael eu dargadw i Safon Uwch Cymraeg.
- Dim ond 520 o ddisgyblion ar lefel TGAU a 58 o ddisgyblion ar lefel Safon Uwch safodd Almaeneg, sef yr iaith a siaredir fwyaf yn Ewrop yn 2022. Cymru oedd â'r nifer isaf o ymgeiswyr Safon Uwch Almaeneg o holl awdurdodaethau gwledydd Prydain; os yw'r duedd hon am gael ei gwyrdroi, mae angen i'r holl randdeiliaid gydweithio i ddatblygu strategaeth ymyrryd. Ni ellir diystyru'r sgil-effaith i'r biblinell o siaradwyr Almaeneg sy'n mynd i Addysg Uwch a'r byd gwaith.
- Mae darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol mewn colegau ôl-16 yn dameidiog. Pan fo Ieithoedd Rhyngwladol ar gael, mae gormod o bwyslais ar Ffrangeg a Sbaeneg. Nid oes digon o fyfyrwyr mewn colegau ôl-16 yn cael cyfle un ai i astudio iaith neu i ailsefyll TGAU a fethwyd yn flaenorol. Mae diffyg darpariaeth mewn perthynas â Ieithoedd Rhyngwladol a chymwysterau galwedigaethol.



# Cyd-destun Polisi a Chefndir

Mae hydref 2022 yn gyfnod o drawsnewid i ysgolion wrth i'r Cwricwlwm newydd i Gymru ddod i rym. Nod y cwricwlwm hwn yw paratoi plant a phobl ifanc gyda'r wybodaeth, y sgiliau, a'r profiadau i lwyddo yn y dyfodol.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-2026 yn ymrwymo'n benodol i ehangu addysg a darpariaeth Gymraeg ar draws pob cam ar addysg, yn ogystal ag ehangu addysg Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion. Nod Dyfodol Byd-eang, sef cynllun i wella a hyrwyddo Ieithoedd R,hyngwladol yng Nghymru 2020-2022, oedd (i) cynyddu nifer y dysgwyr ifanc sy'n astudio ieithoedd ar bob lefel ac ar draws pob sector, (ii) darparu arweiniad clir, egwyddorion a chodi ymwybyddiaeth ym mhob sector i gefnogi amlieithrwydd mewn ysgolion yng Nghymru, (iii) cefnogi addysgu a dysgu ardderchog mewn Ieithoedd Rhyngwladol i bob dysgwr. Fe'i darparwyd gan Lywodraeth Cymru ac ystod o bartneriaid. Pennodd gwerthusiad o brosiect Dyfodol Byd-eang 2020-2022 fod adnoddau a dysgu proffesiynol athrawon mewn rhai ysgolion o safon uchel, gan arwain at addysgu a dysgu o ansawdd uchel mewn Ieithoedd Rhyngwladol. Serch hynny, roedd gwerthuswyr hefyd yn cydnabod nad yw hi eto wedi bod yn bosib gwireddu nodau strategol prosiect Dyfodol Byd-eang yn llawn, gan nodi gostyngiad yn nifer y dysgwyr ifanc sy'n astudio ieithoedd ar bob lefel ac ar draws pob sector. Yn erbyn y cefndir cymhleth hwn y cynhelir ymchwil *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* 2022.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n weithredol o fis Medi 2022 ymlaen, yn sefydlu disgwyliadau a rennir o ran sut dylai ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm.[1]

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ailenwi 'Ieithoedd Tramor Modern' yn 'Ieithoedd Rhyngwladol'. Yn debyg i adegau a fu, yr ieithyddion sydd wedi creu ieithoedd yn gymdeithasol a rhoi enwau a labeli iddynt; gobeithir y bydd y label newydd hwn hefyd yn arwydd o drawsnewid canlyniadau ar gyfer y ddisgyblaeth. Diffinnir Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru fel 'ieithoedd cartref a chymunedol, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain'.[2]

Mae'r ieithoedd hyn bellach wedi'u hintegreiddio gyda Chymraeg a Saesneg fel un o chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' o'r enw: 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.' Am y tro cyntaf, mae gofyn i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn o leiaf un iaith ryngwladol arall heblaw am Gymraeg a Saesneg o'r ysgol gynradd ymlaen. Mae pwyslais ar hyrwyddo ymagwedd gyfannol, amlieithog a lluosieithog tuag at addysg ieithoedd yn yr ystyr ehangaf. Y Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill yw: (i) Y Celfyddydau Mynegiannol, (ii) Iechyd a Lles, (iii) Y Dyniaethau, (iv) Mathemateg a Rhifedd, a (v) Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Wrth gymharu nifer yr ymgeiswyr Ieithoedd Rhyngwladol[3] ar lefel TGAU a Safon Uwch yng Nghymru gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon, Cymru sydd â'r niferoedd isaf, er bod o leiaf un iaith ryngwladol ar hyn o bryd yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) ac yn cael ei chynnig fel opsiwn yng Nghyfnod Allweddol 4 (14-16 oed). I'r gwrthwyneb, mae nifer yr ymgeiswyr Cymraeg fel ail iaith (Cymraeg L2) ar gyfer TGAU wedi dangos twf cyflym yn y blynyddoedd diwethaf.[4] Un ffactor sy'n cyfrannu at hyn yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi statws statudol i'r Gymraeg ar draws y cyfnod addysg uwchradd cyfan (3-16 oed).[5]

1 Llywodraeth Cymru (2020a)
2 Llywodraeth Cymru (2019a, t.14)
3 Dim ond y '3 Fawr' mae'r dadansoddiad hwn yn eu cymharu – Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg
4 Henderson a Carruthers (2021)
5 Jones (2019)

## Effaith y pandemig ac ôl-bandemig

Cynhaliwyd arolygon *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* ddiwethaf gydag ysgolion cynradd yn 2019. Cynhaliwyd arolwg gydag ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 ddiwethaf yn 2021, gydag effaith Covid-19 yn nodwedd amlwg yn adroddiad 2021. Yn ôl *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* 2021, mynegodd 42% o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd fod y cyfnod clo cenedlaethol rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021[6] a'r adeg ar ôl y cyfnod clo rhwng 12 Ebrill a 16 Gorffennaf 2021[7] wedi cael 'effaith negyddol fawr' ar ddysgu ieithoedd, ac adroddodd 37% arall o ysgolion 'effaith negyddol fach'. Dangosodd un o'r arsylwadau pwysig o ganlyniadau'r arolwg fod y pandemig yn cael ei deimlo'n waeth mewn ysgolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Er enghraifft, roedd yr athrawon yn amcangyfrif nad oedd gan un ym mhob pump disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) mewn ardaloedd difreintiedig fynediad at y rhyngrwyd (hyd yn oed drwy ffôn clyfar) ym mis Ionawr a Chwefror 2021. O ganlyniad, profodd y disgyblion hyn anawsterau yn cwblhau ac yn uwchlwytho gwaith i gael ei farcio, a chafodd effaith negyddol ar eu gwaith paratoi ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, neu Safon Uwch a'r cyfwerth. At hynny, adroddodd athrawon, ar gyfartaledd, nad oedd dau ymhob pump disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3 yng Nghymru yn ymgysylltu â dysgu ieithoedd. Bydd angen ystyried canlyniad y cyfnod hwn mewn hanes ar ddysgu ieithoedd, yn enwedig yr effaith negyddol ar ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig, yn y dyfodol agos, yn enwedig wrth ddehongli data 2022 sy'n dilyn.

## Y Gymraeg

Yn dilyn y Ddeddf Diwygio Addysg (1988) a oedd yn cynnwys y Gymraeg yn y cwricwlwm cenedlaethol, daeth Cymraeg yn bwnc gorfodol i'r holl ddysgwyr yng Nghymru yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2, a 3 (5-14 oed) ym 1990 ac yng Nghyfnod Allweddol 4 (14-16 oed) o fis Medi 1999 ymlaen. O ganlyniad, gyda'i statws uchel mewn addysg, mae'r Gymraeg wedi ffynnu ac mae 23% o blant yng Nghymru yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fel y mae Gorrara et al. (2020) yn ei nodi, mae'r Gymraeg wedi'i disgrifio fel "enghraifft arfer gorau o sut mae modd defnyddio trochi iaith mewn addysg fel 'gwrth-bwysau' i ddirywiad iaith leiafrifol"[8] ar ôl degawdau o ddirywiad. Wrth gwrs, dylid dathlu twf y Gymraeg.

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 562,000 o'r boblogaeth yng Nghymru ar y pryd, sef 3.1 miliwn, yn siaradwyr Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at filiwn o siaradwyr erbyn 2050,[9] ac mae ganddi nod strategol y bydd 70% o'r holl ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg erbyn diwedd addysg statudol.[10] Yn ogystal, o dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, y canlyniad cadarnhaol yw cynnydd yn y Gymraeg fel ail iaith (Cymraeg L2), gyda thwf cyflym i'w weld ar lefel TGAU yn y blynyddoedd diwethaf.

## Cymru ar y llwyfan byd-eang

Mae Ieithoedd Rhyngwladol yn dal i fod yn strategol bwysig i ddyfodol Cymru. Canfu astudiaeth ddiweddar (Ayres-Bennett et al., 2022) fod ieithoedd yn chwarae rôl allweddol mewn masnach ryngwladol a bod peidio â rhannu iaith gyffredin yn gweithredu fel rhwystr masnach di-dariff. Un canfyddiad allweddol arall o'r astudiaeth oedd y byddai buddsoddi mewn addysg ieithoedd yng ngwledydd Prydain yn debygol o arwain at ganlyniad mwy na chost buddsoddi, hyd yn oed yn ôl rhagdybiaethau ceidwadol. Er enghraifft, amcangyfrifir bod y cymarebau budd-i-gost yn 2:1 o leiaf ar gyfer hyrwyddo addysg Arabeg, Ffrangeg, Mandarin, neu Sbaeneg, gan olygu y gallai gwario £1 ddychwelyd oddeutu £2. Felly, mae'n bwysicach snag erioed fod gan Gymru weithlu sydd â'r sgiliau i gyfathrebu yn Gymraeg, Saesneg ac mewn Ieithoedd Rhyngwladol.

6 Llywodraeth Cymru (2021a)
7 Llywodraeth Cymru (2021b)
8 Gorrara et al. (2020)
9 Llywodraeth Cymru (2021c)
10 Llywodraeth Cymru (2017)

# Amlinelliad o'r Ymchwil

I ddangos tystiolaeth o gyflwr presennol addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 yng Nghymru, cynhaliwyd ymchwil o fewn y sefydliadau addysgol hyn ar draws Cymru. Cyn casglu'r data, cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Addysg a Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol y Frenhines, Belffast. Rhoddodd yr holl gyfranogwyr eu cydsyniad gwirfoddol a gwybodus i gymryd rhan. Cynhaliwyd yr ymchwil i'r safonau moesegol uchaf.

Y cwestiwn ymchwil a oedd yn llywio'r astudiaeth oedd 'Beth yw cyflwr presennol addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 yng Nghymru?' Er mwyn ateb y cwestiwn ymchwil, mabwysiadwyd ymagwedd dulliau cymysg, gan adeiladu ar adroddiadau blaenorol *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* a methodolegau sy'n gymaradwy â'r rhai a ddefnyddiwyd yn adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd Lloegr a Thueddiadau Ieithoedd Gogledd Iwerddon. Roedd y dulliau ymchwil yn cynnwys tri arolwg, un ar gyfer pob sector ysgol, ac roedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Roedd yr arolygon yn cynnwys eitemau cwestiynau caeedig i gael eu dadansoddi'n feintiol ac yn cynnwys rhai eitemau cwestiynau agored ar gyfer sylwebaeth ansoddol.

Datblygwyd cwestiynau'r arolwg gan y tîm ymchwil ar ddechrau 2022, ac fe'u mireiniwyd mewn ymgynghoriad â grŵp o randdeiliaid, a gafodd eu cynnull gan British Council Cymru.

Anfonwyd yr arolygon drwy e-bost at 957 o ysgolion cynradd, 182 o ysgolion uwchradd ac 13 o golegau ôl-16 yng Nghymru yng ngwanwyn 2022, ac fe'u cyfeiriwyd at y Pennaeth (ar gyfer ysgolion cynradd) a'r Pennaeth Ieithoedd Tramor Modern / Pennaeth Ieithoedd Rhyngwladol (ar gyfer ysgolion a cholegau ar ôl lefel cynradd). Ni lwyddwyd i gysylltu â phob ysgol gynradd yng Nghymru (n=1219), oherwydd diffyg mynediad at restr gyhoeddus o gyfeiriadau e-bost ysgolion cynradd. Cysylltodd aelod o'r tîm ymchwil â dros hanner yr ysgolion ar y ffôn hefyd, er mwyn cefnogi cyfranogiad.

Gwahoddwyd ysgolion i gyflwyno un ymateb yn unig; os cafwyd mwy nag un ymateb gan un sefydliad, yr ymateb cyntaf a dderbyniwyd gafodd ei gynnwys yn y set ddata. Ar gyfer yr arolwg, dadansoddwyd ymatebion eitemau caeedig gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol a dadansoddwyd sylwadau i gwestiynau ymateb agored gan ddefnyddio dadansoddiad thematig.[11]

Croesgyfeiriwyd data gyda'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) gan Ystadegau Cymru, a gasglwyd ar 15 Chwefror 2022 ac a gyhoeddwyd ar 31 Awst 2022. Roedd y gwaith cipio data a chyhoeddi yn hwyrach na'r arfer oherwydd pandemig Covid-19.

Ar ôl i'r setiau data gael eu gwirio, ac ar ôl i ddyblygiadau gael eu dileu, cafwyd y cyfraddau ymateb canlynol:

| | Sail | Cyflawnwyd | Cyfradd Ymateb % |
|---|---|---|---|
| Arolwg Ysgolion Cynradd | 957 | 95 | 10% |
| Arolwg Penaethiaid Adrannau Ysgolion Uwchradd | 182 | 64 | 35% |
| Arolwg Penaethiaid Adrannau Colegau Ôl-16 | 11 | 9 | 82% |

**Tabl 1:** Cyfraddau ymateb

Er bod y gyfradd ymateb ar gyfer ysgolion cynradd (10%) yn is na'r hyn a gyflawnwyd yn 2019 (12.5%), mae'n rhaid cadw mewn cof y cyd-destun o ran yr amrywiaeth o heriau mae ysgolion a cholegau yn eu hwynebu. Mae cymryd rhan yn yr arolwg hwn yn ddewisol ac mae'n cymryd 15 munud i ymateb i'r arolwg.


Serch hynny, mae gallu casglu data meintiol ac ansoddol yn caniatáu ar gyfer ystod a dyfnder tystiolaeth er mwyn dod i gasgliadau gyda hyder rhesymol. Dylid nodi hefyd, fel cyfyngiad i'r gwaith hwn, ei bod yn bosib bod ysgolion sy'n addysgu ieithoedd rhyngwladol yn fwy tebygol o ymateb i geisiadau i gymryd rhan yn yr arolwg.

11 Braun a Clarke (2006)


# Ffigurau Arholiadau Cyhoeddus

Yng Nghymru, mae tystiolaeth o ostyngiad pryderus yn nifer yr ymgeiswyr TGAU ar gyfer y ‘3 Fawr’, sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, na ellir ei briodoli i lai o ddisgyblion yn ymrestru mewn ysgolion. Mae’r cwymp o 20% yn nifer yr ymgeiswyr TGAU Sbaeneg yn peri pryder penodol, gan nad yw hyn yn cyfateb â’r duedd mewn rhannau eraill o wledydd Prydain, lle mae nifer y disgyblion sy’n astudio Sbaeneg yn cynyddu.


Yn wir, mae niferoedd Sbaeneg wedi bod yn anghyson dros y pum mlynedd diwethaf, a Chymru yw’r unig awdurdodaeth yng ngwledydd Prydain sy’n profi hyn. Mae Ffigur 2 yn dangos bod niferoedd ymgeiswyr Ieithoedd Rhyngwladol nad ydynt yn un o’r ‘3 Fawr’, a gaiff eu galw weithiau’n ‘ieithoedd cartref a chymunedol’, wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, a chroesewir hyn.




**Ffigur 1:** Ymgeiswyr TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015 – 2022 (ffynhonnell JCQ)




**Ffigur 2:** Ymgeiswyr TGAU mewn ieithoedd heblaw Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg 2015 – 2022




**Ffigur 3:** Cymharu ymgeiswyr TGAU Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) a'r holl ieithoedd rhyngwladol 2015 – 2022


Mae Ffigur 3 yn dangos bod ymgeiswyr TGAU Cymraeg yn uchel, ac nid yw hyn yn peri syndod o ystyried natur orfodol y pwnc. Mae hefyd yn dangos cydberthynas rhwng Cymraeg fel pwnc gorfodol a chwymp yn niferoedd TGAU Ieithoedd Rhyngwladol.

> **“Mae’r Gymraeg yn orfodol, felly mae disgyblion eisoes yn astudio iaith arall yn ogystal â Saesneg, ac yn aml dydyn nhw ddim yn gweld rheswm i astudio iaith ryngwladol.”**
> Sylw gan athro


> **“Yn ein hysgol ni mae diffyg colofnau opsiwn ar gyfer TGAU – all disgyblion ddim ond dewis tri opsiwn, ac mae Cymraeg (gorfodol) eisoes yn cael ei gweld fel “un iaith”. Mae’n debygol taw dyma’r rhwystr gwaethaf pan ddaw at ddisgyblion yn dewis iaith ryngwladol y dyddiau yma.”**
> Sylw gan athro

Mae Ffigur 4 yn dangos gostyngiad brawychus yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg Safon Uwch. Gyda dim ond 58 o ymgeiswyr Almaeneg Safon Uwch yng Nghymru, mae’r iaith hon yn sicr mewn cyflwr eithriadol o argyfyngus. Os na chaiff ymdrech frys, unedig ac ariannol ei buddsoddi’n strategol mewn Almaeneg i wrthdroi’r duedd hon, yna mae’n debygol y bydd y pwnc hwn yn diflannu o system ysgolion Cymru o fewn y degawd nesaf. Wrth ystyried Cymru ar lwyfan byd-eang, byddai hyn yn ergyd sylweddol gan fod yr Almaen yn un o bartneriaid masnachu pwysicaf Cymru; mae bron i un ymhob pump o allforion Cymru yn mynd i’r Almaen.


Mae Ffigur 6 yn dangos bod lefelau dargadw o TGAU i Safon Uwch Cymraeg yn fach iawn, gydag oddeutu 1 ymhob 100 o ddysgwyr yn parhau â’r Gymraeg i Safon Uwch. O gymharu, mae ychydig yn llai nag 11 ymhob 100 o ddisgyblion yn parhau gyda mathemateg o TGAU i Safon Uwch yng Nghymru. Ni all y gostyngiad cyffredinol yn nifer yr ymgeiswyr Safon Uwch mewn Ieithoedd Rhyngwladol ond achosi pryder sylweddol.




**Ffigur 4:** Ymgeiswyr Safon Uwch mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015 – 2022




**Ffigur 5:** Ymgeiswyr Safon Uwch mewn ieithoedd heblaw Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Gymraeg 2015 – 2022




**Ffigur 6:** Cymharu ymgeiswyr Safon Uwch mewn Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) a'r holl ieithoedd rhyngwladol 2017 – 2022

# Canfyddiadau o'r Arolwg Ysgolion Cynradd

## Proffil yr ysgolion a ymatebodd

Yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22, roedd 1217 o ysgolion cynradd gwladol yng Nghymru (2 yn llai nag yn 2021) gyda nifer y disgyblion yn 266,574. Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, a Sir Gaerfyrddin yn rhai cyfrwng Cymraeg. Yn yr 18 awdurdod lleol arall, roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg, gyda chyfuniad o Gymraeg a Saesneg yn cael ei siarad.

Ar ôl adolygu'r setiau data a chael gwared ar ddyblygiadau, roedd 95 o ymatebion defnyddiadwy, gyda 25 yn Gymraeg a 70 yn Saesneg. Cafodd cyflwyniadau Cymraeg eu cyfieithu i'r Saesneg er mwyn galluogi'r tîm ymchwil ym Melffast i ddadansoddi'r data yn effeithiol. Roedd yr ysgolion yn cynrychioli pob un o'r pedwar consortiwm addysg ffurfiol yng Nghymru, a chaiff yr holl awdurdodau lleol eu cynrychioli yn ein set ddata (gweler Tabl 2).

| Consortiwm Addysg | Yn cynnwys awdurdodau lleol | Nifer yr ysgolion a ymatebodd |
|---|---|---|
| Y gogledd | Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam | 23 |
| Y de-orllewin a'r canolbarth | Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot | 30 |
| Canolbarth y de | Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd | 22 |
| Y de-ddwyrain | Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd | 20 |

**Tabl 2:** Lleoliadau consortia yr ysgolion cynradd a gymerodd ran

## Prydau Ysgol am Ddim

Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru amddiffyniad wrth bontio newydd i'r polisi prydau ysgol am ddim. Cyflwynwyd hwn er mwyn sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfnod o gyflwyno Credyd Cynhwysol.

Mae'r amddiffyniad hwn yn berthnasol i ddisgyblion unigol, ac mae'n parhau tan ddiwedd eu cyfnod ysgol presennol, hynny yw tan ddiwedd yr ysgol gynradd neu ddiwedd yr ysgol uwchradd.

Byddai unrhyw ddisgybl a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim adeg cyflwyno'r polisi ar 1 Ebrill 2019 hefyd yn cael eu hamddiffyn wrth bontio. Yn ogystal, byddai unrhyw ddisgybl a fyddai'n dod yn gymwys ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol o dan y meini prawf cymhwysedd newydd hefyd yn cael eu hamddiffyn wrth bontio.


O ystyried y cyd-destun polisi hwnnw, roedd 102,391 o ddisgyblion (26.9%) rhwng 5 a 15 oed a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu wedi'u hamddiffyn wrth bontio ym mis Chwefror 2022. Mae hyn yn gynnydd ar 95,532 o ddisgyblion (25.2%) ym mis Ebrill 2021. Mae gwaith adrodd Llywodraeth Cymru o'r data hwn yn yr ystod oedran 5 i 15 oed yn ei gwneud yn anodd cymharu'r union sefyllfa yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd a ymatebodd i'n harolwg. Serch hynny, o'n data ni, y cyfartaledd ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfer ein hysgolion cynradd a ymatebodd yw 26.8%, gydag ystod o hyd at 57%. Ar ôl eu trefnu'n gwintelau, mae cynrychiolaeth ar draws y set ddata; felly gallwn fod yn hyderus fod yr ysgolion a ymatebodd yn cynrychioli ystod eang o ffactorau economaidd-gymdeithasol.[12]

12 Ar 17 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r hawl i brydau ysgol am ddim yn cael ei hymestyn i bob plentyn ysgol gynradd. Dechreuwyd cyflwyno'r polisi hwn ym mis Medi 2022, gyda'r dysgwyr ifancaf mewn ysgolion cynradd yn cael prydau ysgol am ddim i ddechrau.

## A yw Ieithoedd Rhyngwladol ar y Cwricwlwm mewn ysgolion cynradd?

Dywedodd 41% (n=39) o'r ysgolion cynradd a ymatebodd (n=95) wrthon ni eu bod yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn eu hamser cwricwlwm yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22. Mae hyn yn dangos twf, i fyny o 39% o ysgolion yn 2019, a 28% yn 2016, gan ddangos bod y cyfeiriad cyffredinol yn gyson â pholisi'r llywodraeth o Ieithoedd Rhyngwladol gorfodol mewn ysgolion cynradd o fis Medi 2022 ymlaen. Serch hynny, doedd 40% o'r ysgolion hyn a oedd yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn y flwyddyn ysgol 2021/22 ddim ond newydd ddechrau addysgu Ieithoedd Rhyngwladol. Roedd deg y cant o'r ysgolion wedi bod yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ers dros bum mlynedd.

Er bod yr arolwg yn dangos bod cyfran yr ysgolion sy'n addysgu Ffrangeg yn 2022 wedi gostwng ers 2019, dyma'r iaith fwyaf boblogaidd a gaiff ei haddysgu mewn ysgolion cynradd yn dal i fod. Yn debyg i'r duedd yn awdurdodaethau eraill gwledydd Prydain, nodwn dwf mewn Sbaeneg ar lefel gynradd. Mae Almaeneg hefyd yn dangos twf yn ein set ddata. O ran Ieithoedd Rhyngwladol eraill a addysgir yn y cyfnod cynradd, nodir cyfuniad o Iaith Arwyddion Prydain, Eidaleg, Japaneeg, Lladin, Swedeg, a Mandarin. Nid oes tystiolaeth yn y set ddata hon o addysgu Hen Roeg, Arabeg nac Wrdw.




**Ffigur 7:** Ieithoedd a addysgir mewn ysgolion cynradd yng Nghymru a newid dros amser

Ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 6, yn yr ysgolion hynny lle mae addysgu ieithoedd yn digwydd, adroddodd athrawon cynradd bod y cyfnodau amser canlynol wedi'u neilltuo ar gyfer ieithoedd:

| | Llai na 30 munud | 30 – 45 munud | Mwy na 45 munud ond llai nag awr | Rhwng awr a dwy awr | Dim addysgu ieithoedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 3 | 43% | 29% | 11% | 7% | 10% |
| Blwyddyn 6 | 32% | 22% | 36% | 7% | 3% |

**Tabl 3:** Amser ar gyfer ieithoedd ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 6

Mae ymchwil flaenorol (e.e. Graham et al., 2017) yn awgrymu bod angen o leiaf awr o addysgu'r wythnos er mwyn i ddisgyblion gyflawni cynnydd mesuradwy mewn iaith ryngwladol ar lefel gynradd. Er bod hyfedredd iaith athrawon a phrofiad o hyfforddiant athrawon blaenorol yn hanfodol er mwyn cefnogi datblygiad hyfedredd iaith, mae cysylltiad cryf rhwng hyd yr amser addysgu ac enillion hyfedredd. Felly, mae'n siomedig i chwarter yr ysgolion cynradd sy'n addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ddweud wrthon ni nad yw disgyblion bob amser yn derbyn yr amser a neilltuwyd i ddysgu iaith ryngwladol; yn aml dyma'r maes o'r cwricwlwm a gaiff ei ollwng pan fydd digwyddiadau arbennig yn cael eu cynnal neu pan fydd rhythm arferol yr wythnos yn cael ei darfu. Dywedodd dros 40% o'r ysgolion hyn hefyd wrthon ni nad ydyn nhw'n asesu nac yn cofnodi cynnydd disgyblion mewn Ieithoedd Rhyngwladol, a dywedodd 35% arall wrthon ni eu bod yn cadw cofnodion grŵp, ond na chaiff cynnydd ieithyddol disgyblion unigol ei nodi.

Felly, er mwyn galluogi gwreiddio dysgu ieithoedd ar lefel gynradd yn effeithiol, mae angen digon o amser pwrpasol ar gyfer addysgu yn yr ystafell ddosbarth, wedi'i wreiddio mewn diwylliant o ddatblygiad ieithyddol ac addysgegol parhaus ar gyfer athrawon iaith.



## Athro Ieithoedd Cynradd

Yn yr ysgolion cynradd hynny a oedd yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn 2021/22, roedd bron i ddwy ran o dair yn darparu'r pwnc drwy athrawon dosbarth. Roedd y traean arall o ysgolion yn dibynnu ar athrawon arbenigol allanol, athrawon o ysgol uwchradd leol neu gyfuniad o'r rhain. Dim ond un rhan o dair o'r athrawon a oedd yn darparu Ieithoedd Rhyngwladol sydd wedi cael Dysgu Proffesiynol pwnc benodol yn y flwyddyn ysgol ddiwethaf.

## Ieithoedd Rhyngwladol Statudol o fis Medi 2022 ymlaen

**"Mae llais y disgybl yn cyfeirio elfennau o'r iaith maen nhw'n dymuno eu dysgu, gyda chefnogaeth athro dosbarth i sicrhau cynnydd. Rydyn ni wedi gweld bod disgyblion wedi dechrau dysgu ieithoedd rhyngwladol yn llawer mwy brwd na Chymraeg, a dyna pam rydyn ni hefyd yn ail-siapio sut rydyn ni'n darparu cwricwlwm y Gymraeg i gynyddu mwynhad y disgyblion. Mae cynnig tair Iaith Ryngwladol yn dod â disgyblion i gysylltiad â sawl iaith drwy eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, gan adael iddyn nhw weld tebygrwydd a gorgyffwrdd rhwng yr ieithoedd. Rydyn ni bob amser yn cynnig yr iaith/ieithoedd a ddarperir gan yr ysgol uwchradd yn y dalgylch. Mae dysgu cyfunol yn hanfodol yn y ddarpariaeth [...] rydyn ni hefyd yn defnyddio Ieithoedd Rhyngwladol i gefnogi datblygiad llythrennedd (dosbarthiadau geiriau, gramadeg, strwythur, amser, ac ati)."**
Athro, Canolbarth y De.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn gofyn i bob ysgol gynradd ddarparu iaith ryngwladol fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'. Atebodd pob un o'r 95 o ysgolion cynradd (hynny yw y rhai a oedd yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn 2021/22 a'r rhai nad oeddent yn gwneud hynny) ddau gwestiwn am eu parodrwydd ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru o fis Medi 2022 ymlaen (gweler Tabl 4 a Thabl 5).

Mae'r data'n dangos bod hanner yr ysgolion cynradd un ai ddim mewn sefyllfa i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 2, neu eu bod yn y camau cychwynnol o gynllunio i addysgu iaith ryngwladol. Mae chwarter yr ysgolion yn cynllunio ar gyfer cynnydd mewn un iaith, sy'n debyg i'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Lloegr. Serch hynny, mae un ymhob deg ysgol yn defnyddio dull gwahanol. Maen nhw'n adrodd eu bod nhw'n cyflwyno disgyblion i sawl Iaith Ryngwladol. Mae hyn yn debyg i Iwerddon, fel yr adroddwyd yn yr astudiaeth achos a oedd yn adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* 2021 y llynedd.

**"Rydyn ni yn y camau cynnar iawn o drafod a chynllunio Iaith Ryngwladol a'i chyflwyno ar draws yr ysgol."**
Athro, y De-orllewin a'r Canolbarth

Mae 66 y cant o ysgolion yn bwriadu addysgu Ffrangeg, mae 13% o'r ysgolion yn bwriadu addysgu Sbaeneg, ac mae 9% o'r ysgolion yn bwriadu addysgu Iaith Arwyddion Prydain fel eu prif iaith. Ymatebodd llai na 5 o ysgolion (cyfanswm n=95) eu bod yn bwriadu addysgu un ai Almaeneg, Japaneeg, neu Mandarin fel eu prif iaith. Ni wnaeth yr un ysgol ymateb i ddweud eu bod yn bwriadu addysgu iaith hynafol fel eu prif iaith nac fel iaith ychwanegol.

Lle mae ysgolion yn bwriadu addysgu mwy nag un iaith (n=41), roedd dros eu hanner yn bwriadu addysgu Sbaeneg a 15% yn bwriadu addysgu Almaeneg. Mae gweddill yr ysgolion yn cyfeirio at gynlluniau i addysgu Iaith Arwyddion Prydain, Eidaleg a Mandarin.

| O fis Medi 2022 ymlaen, pa ddatganiad sy'n disgrifio orau eich dull arfaethedig o addysgu Ieithoedd Rhyngwladol? | |
|---|---|
| Nid ydym mewn sefyllfa i addysgu ieithoedd rhyngwladol | 7% |
| Rydym yn y camau cynnar o gynllunio darpariaeth ieithoedd rhyngwladol | 43% |
| Rydym yn bwriadu i ddisgyblion wneud cynnydd mewn un iaith ryngwladol ac i gysoni hyn â'n hysgol uwchradd leol | 24% |
| Rydym yn bwriadu cyflwyno disgyblion i fwy nag un iaith ryngwladol | 10% |
| Rydym yn bwriadu addysgu Iaith Arwyddion Prydain | 6% |
| Wn i ddim / Arall | 10% |

| Pa mor barod ydych chi fel ysgol i gynnwys iaith ryngwladol fel rhan statudol o Gwricwlwm i Gymru 2022? | |
|---|---|
| Parod iawn | 17% |
| Eithaf parod | 47% |
| Ddim yn barod | 36% |

**Tabl 4:** Parodrwydd ysgolion cynradd i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol o fis Medi 2022 ymlaen

| Gyda pha grwpiau blwyddyn ydych chi'n bwriadu addysgu iaith ryngwladol o fis Medi 2022 ymlaen? Dewiswch bob un sy'n berthnasol. | |
|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | 37% |
| Blwyddyn 1 | 43% |
| Blwyddyn 2 | 45% |
| Blwyddyn 3 | 61% |
| Blwyddyn 4 | 65% |
| Blwyddyn 5 | 78% |
| Blwyddyn 6 | 83% |
| Nid ydym mewn sefyllfa i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol i unrhyw grŵp blwyddyn yn 2022/23. | 7% |

**Tabl 5:** Grwpiau blwyddyn y mae ysgolion yn bwriadu addysgu Iaith Ryngwladol iddynt o fis Medi 2022/3 ymlaen.

## Heriau o ran bodloni gofynion newydd Cwricwlwm i Gymru 2022 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol

Gofynnodd ein harolwg i athrawon am yr heriau maen nhw'n eu hwynebu wrth ateb gofynion newydd y Cwricwlwm i Gymru, sy'n nodi bod yn rhaid addysgu iaith ryngwladol ar lefel gynradd fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'. Dim ond 2% o'r ysgolion ddywedodd wrthym nad ydynt yn profi dim heriau penodol. Caniatawyd sawl ymateb ac mae Tabl 6 yn dangos bod y pryder mwyaf yn ymwneud â hyfedredd staff mewn ieithoedd.

Dywedodd 42 y cant o ysgolion wrthym y byddai'r athro sy'n gyfrifol am Ieithoedd Rhyngwladol yn gymwys i lefel TGAU. Mewn 25% o'r ysgolion, byddai gan yr athro sy'n gyfrifol gymhwyster Safon Uwch, ac yn 12% o'r ysgolion, byddai gan yr athro gymhwyster lefel gradd mewn Ieithoedd Rhyngwladol. Yn un ymhob pump o ysgolion, ni fyddai gan yr athro gymhwyster o gwbl mewn Ieithoedd Rhyngwladol. At hynny, adroddodd 40% o'r ysgolion cynradd nad oes ganddynt gysylltiadau â'r adran Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgol uwchradd gyfagos.


| | |
|---|---|
| Hyfedredd staff mewn Ieithoedd Rhyngwladol | 65% |
| Cystadleuaeth am amser cwricwlwm gan bynciau Cymraeg a Saesneg | 52% |
| Effaith Covid-19 | 48% |
| Dod o hyd i athrawon sy'n gallu addysgu iaith ryngwladol | 45% |
| Cyllid ac adnoddau | 45% |
| Angen neilltuo amser cwricwlwm i ddal i fyny gyda phynciau eraill yn sgil Covid-19 | 40% |
| Cael mynediad at Ddysgu Proffesiynol sy'n benodol ar gyfer ieithoedd | 31% |
| Sicrhau cefnogaeth rhieni | 6% |
| Nid ydym yn profi unrhyw heriau penodol | 2% |

**Tabl 6:** Heriau athrawon o ran bodloni gofynion newydd Cwricwlwm i Gymru 2022

## Dimensiwn Rhyngwladol mewn Ysgolion Cynradd

Dywedodd 64 y cant o'r ysgolion cynradd wrthym nad oes ganddynt ddim gweithgareddau na phartneriaethau rhyngwladol yn eu hysgol. Lle mae'r dimensiwn rhyngwladol yn bresennol ac yn gadarnhaol, dywedodd athrawon wrthym:

> **"Eleni, mae dau aelod o staff wedi cymryd rhan ym mhrosiect Erasmus – Addysgu Iaith Arloesol mewn Gwlad Ddwyieithog. Aeth un i Galicia yn Sbaen, a'r llall i Iwerddon."**
>
> **"Dyma'r drydedd flwyddyn i ni gael myfyriwr Iaith Tsieinëeg drwy'r British Council. Er gwaetha effaith amlwg Covid, mae hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran datblygu sgiliau iaith yn ogystal ag amlddiwylliannedd ein disgyblion."**




**Ffigur 8:** Dimensiwn Rhyngwladol mewn Ysgolion Cynradd

Gofynnodd ein harolwg i ysgolion hefyd a oedd ganddynt unrhyw gysylltiadau â sefydliadau allanol (nid sefydliadau rhyngwladol o reidrwydd) i hyrwyddo dysgu ieithoedd rhyngwladol. Mae Tabl 7 yn dangos, yn ôl yr ysgolion a ymatebodd, nad oes cysylltiadau â'r sector busnes a masnachol yn bodoli. Maen nhw hefyd yn adrodd y gellid datblygu cysylltiadau pellach â sefydliadau diwylliannol a'r Consortia Rhanbarthol mewn perthynas â dysgu ieithoedd rhyngwladol.

> **"Cefnogaeth dda gan yr ysgol uwchradd a'r cyngor lleol."**

**A oes gennych gysylltiadau ag unrhyw sefydliadau allanol i hyrwyddo dysgu ieithoedd rhyngwladol? (caniatawyd mwy nag un ymateb)**

| | |
|---|---|
| Prifysgol | 9% |
| Busnes neu gyflogwr arall | 0 |
| Sefydliad diwylliannol (e.e. Institut Français) | 4% |
| Ysgol uwchradd leol | 47% |
| Y Consortiwm Rhanbarthol | 19% |
| Ysgolion y tu allan i Gymru | 9% |
| British Council | 8% |
| Arall | 9% |

**Tabl 7:** Cysylltiadau â sefydliadau allanol

## Beth fyddai modd ei wella?

Mae athrawon cynradd wedi adrodd yn gyson er mwyn gwella addysgu a dysgu rhyngwladol, bod angen mwy o gyllid, adnoddau, a mynediad at ddysgu proffesiynol pwnc benodol arnyn nhw. Mae llawer o athrawon yn cydnabod y gefnogaeth sydd ar gael i'r Gymraeg, ac fe hoffen nhw weld cefnogaeth debyg i Ieithoedd Rhyngwladol.

> **"Byddai'n dda cael syniadau gwersi/cefnogaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu'r Gymraeg yn ein hysgol, ac mae'r syniadau a'r gefnogaeth rydyn ni'n eu cael o'r cyfarfodydd gyda nhw yn wych. Byddai'n hyfryd pe bai yna lwyfan tebyg i gysylltu gyda fe. Byddai hefyd yn hyfryd pe bai modd i arbenigwyr ddod i mewn a'n haddysgu fel tîm am yr hyn sy'n creu sesiwn Ffrangeg/Iaith Ryngwladol lwyddiannus."**
> Sylw gan athro
>
> **"Mae'r ysgol yn dymuno gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion clwstwr i gytuno ar gyflwyno un ai Ffrangeg neu Sbaeneg yng Ngham Cynnydd 3. Byddai'r ysgol hefyd yn croesawu mynediad at astudiaethau achos sy'n hyrwyddo arfer da yn y maes hwn ac unrhyw gefnogaeth/hyfforddiant clwstwr/Datblygiad Proffesiynol Parhaus gan ysgolion uwchradd lleol. Mae'n rhaid i athrawon penodol ym mhob ysgol gael mynediad at gyrsiau hyfforddi ardderchog i'w galluogi i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd i addysgu Ffrangeg neu Sbaeneg yn gyson ac yn effeithiol fel iaith ryngwladol i ddisgyblion yng Ngham Cynnydd 3."**
> Sylw gan athro

Mae 2022 yn foment enfawr i ddysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae pob rheswm i obeithio am newid trawsnewidiol ar lefel system. Bydd yn ddiddorol dilyn tueddiadau yn ein hadroddiadau dilynol wrth i lawer o ysgolion cynradd fynd i'r afael â Ieithoedd Rhyngwladol am y tro cyntaf.



# Canfyddiadau o'r Arolwg Ysgolion Uwchradd

Ym mlwyddyn ysgol 2021/22, roedd 182 o ysgolion uwchradd gwladol yng Nghymru, ac roedd 130 ohonynt yn rhai cyfrwng Saesneg, 8 yn rhai cyfrwng Saesneg gyda llawer o Gymraeg, 27 yn rhai cyfrwng Cymraeg, a 27 yn ddwyieithog Cymraeg/Saesneg. Tyfodd nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd o 174,133 yn 2020/21 i 175,957 yn 2021/22. Mae'r sefydlogrwydd a'r twf hwn yn niferoedd disgyblion yn golygu nad yw unrhyw gwymp mewn dysgu ieithoedd rhyngwladol o ganlyniad i lai o ddisgyblion yn ymrestru mewn ysgolion, felly mae'n rhaid bod ffactorau eraill ar waith.

Cafwyd cyfradd ymateb o 35%, i fyny o 29% yn 2021. Mae pob ysgol uwchradd wladol yng Nghymru yn aelod o un o'r 22 awdurdod lleol (cynghorau), yn seiliedig ar leoliad daearyddol fel ar y lefel gynradd. Caiff awdurdodau lleol eu grwpio i bedwar consortiwm addysg i hwyluso gwella ysgolion, codi safonau, gwella ansawdd addysgu, arweinyddiaeth ysgolion, a gwneud arbedion. O ystyried y gyfradd ymateb ac i ddiogelu hunaniaeth yr ysgolion unigol a gymerodd ran cymaint â phosib, bydd yr adroddiad yn gwneud cymariaethau rhwng consortia lle bo hynny'n briodol.

| Consortiwm Addysg | Yn cynnwys awdurdodau lleol | Sail | Nifer yr ysgolion a ymatebodd (n=64) |
|---|---|---|---|
| Y gogledd | Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam | 50 | 14 |
| Y de-orllewin a'r canolbarth | Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot | 51 | 17 |
| Canolbarth y de | Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd | 49 | 16 |
| Y de-ddwyrain | Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd | 32 | 17 |

**Tabl 8:** Nifer yr ysgolion a ymatebodd yn ôl consortiwm addysg

## Prydau Ysgol am Ddim

Er mwyn pennu unrhyw wahaniaethau economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â dysgu ieithoedd, archwiliwyd canran y disgyblion ym mhob ysgol oedd â hawl i brydau ysgol am ddim.

Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad Ysgolion Cymru a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022, trefnwyd pob un o'r 182 o ysgolion uwchradd a wahoddwyd i ymateb i'r arolwg yn gwintelau yn ôl canran y disgyblion (hyd at 15 oed) oedd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim. (Gweler yr adran canfyddiadau ysgolion cynradd flaenorol i gael gwybodaeth am amddiffyn wrth bontio).

Mae Tabl 9 yn dangos, fel yn adroddiad arolwg 2021, bod bron i hanner yr ysgolion a ymatebodd yng nghwintelau 1 a 2 (hynny yw yn ardaloedd mwyaf breintiedig Cymru fel y'u mesurwyd yn ôl nifer y disgyblion oedd â hawl i brydau ysgol am ddim gydag amddiffyniad wrth bontio). Mae'n bosib felly bod yr hyn sydd i ddilyn yn fwy ffafriol na'r realiti mewn llawer o ysgolion.

| | **Sail (cyfanswm = 182)** | **Cyflawnwyd (cyfanswm= 64)** | **% Cyfradd ymateb i'r arolwg** |
|---|---|---|---|
| Cwintel 1 – lleiaf difreintiedig | 36 | 19 | 29% |
| Cwintel 2 | 37 | 11 | 17% |
| Cwintel 3 | 36 | 14 | 22% |
| Cwintel 4 | 37 | 10 | 16% |
| Cwintel 5 – mwyaf difreintiedig | 36 | 10 | 16% |

**Tabl 9:** Cwintelau prydau ysgol am ddim ar gyfer ysgolion uwchradd gwladol

# Dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3

Gofynnodd yr arolwg i'r athrawon pa iaith/ieithoedd rhyngwladol roedd y disgyblion yn eu dysgu yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae Tabl 10 yn dangos canran yr ysgolion uwchradd sy'n cynnig y '3 Fawr', sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, ym mhob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 3. O'r '3 Fawr', Ffrangeg sy'n dal i fod y fwyaf cyffredin. Mewn perthynas â Ieithoedd Rhyngwladol cwricwlaidd heblaw am Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, nid oes tystiolaeth gan yr ysgolion a ymatebodd am arallgyfeirio, heblaw am Mandarin sy'n cael ei chynnig ym Mlwyddyn 8 mewn lleiafrif o'r ysgolion.

Mae Tabl 11 yn dangos ysgolion sy'n cynnig dwy Iaith Ryngwladol i rai disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae ein data'n dangos bod hyn yn dod yn fwyfwy o eithriad yn hytrach na'r norm; lle cynigir dwy Iaith Ryngwladol, mae'n dueddol o fod ym Mlwyddyn 9.

O'r ysgolion a ymatebodd sy'n cynnig dwy iaith i rai disgyblion, Ffrangeg a Sbaeneg yw'r ddwy iaith fwyaf poblogaidd fel ail opsiwn ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 9, gyda Ffrangeg ac Almaeneg yr un mor boblogaidd ym Mlwyddyn 8; mae maint bach y sampl yn golygu nad oes modd cyffredinoli hyn ar draws y boblogaeth ysgol gyfan. Mewn perthynas â Ieithoedd Rhyngwladol cwricwlaidd nad ydynt yn Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg, mae un ysgol yn cynnig darpariaeth Mandarin ar yr amserlen ar gyfer Blwyddyn 8.

Mae dwy ysgol yn cynnig darpariaeth Eidaleg ar yr amserlen, mae dwy yn cynnig Mandarin, ac un yn cynnig Lladin ym Mlwyddyn 9.

> **"Rydyn ni wedi arloesi gyda threfniant mewnol lle gall rhai disgyblion dethol astudio Ffrangeg a Sbaeneg mewn un golofn opsiwn, gan eu galluogi i gael TGAU ychwanegol. Rydyn ni'n darparu ar gyfer ieithoedd cartref [Ffrangeg / Sbaeneg] drwy baratoi disgyblion ar gyfer TGAU/Safon Uwch cynnar os yw hynny'n briodol. Mae Lladin ym Mlwyddyn 8 a Blwyddyn 9 fel dosbarthiadau arholiad allgyrsiol yn codi statws dysgu ieithoedd ac yn cynyddu gallu amlieithog. Rydyn ni wedi ymateb i ieithoedd cartref eraill [Eidaleg ac Almaeneg] drwy gynnig darpariaeth paratoi sylfaenol ar gyfer arholiadau a mynediad ar gyfer TGAU. Mae'r holl elfennau yma'n creu cymuned dysgu ieithoedd fywiog. Mae ganddon ni hefyd systemau mewnol ein hunain ar gyfer codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd mewn gyrfaoedd yn y dyfodol, sy'n arwain at niferoedd da ym Mlwyddyn 9. Mae ein Huwch Reolwyr yn cydnabod ein llwyddiant ac er nad ydyn ni'n cael dim ffafriaeth, does ganddon ni chwaith ddim rhwystr i'n hanghenion datblygu. Mae Llythrennedd Amlieithog yn elfen greiddiol o'n strategaethau addysgu."**
> Sylw gan athro

| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Eraill |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 72% | 5% | 25% | 0 |
| Blwyddyn 8 | 70% | 9% | 31% | 2% (Mandarin) |
| Blwyddyn 9 | 58% | 6% | 25% | 0 |

**Tabl 10:** Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 i'r holl ddisgyblion

| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Eraill |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 11% | 5% | 3% | 0 |
| Blwyddyn 8 | 8% | 8% | 5% | 2% (Mandarin) |
| Blwyddyn 9 | 28% | 14% | 20% | 8% |

**Tabl 11**: Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 – ysgolion sy'n cynnig dwy Iaith Ryngwladol i rai disgyblion

## Amser ar gyfer Ieithoedd

O ran amser cynnwys wythnosol ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion a ymatebodd yn dyrannu 1 – 2 awr yr wythnos drwy gydol Cyfnod Allweddol 3, a 2 – 3 awr ym Mlwyddyn 10.

> **"Dim ond tair awr bob pythefnos mae disgyblion yn ei gael i astudio Sbaeneg, pwnc sydd ddim ond wedi bod ar gael yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n anodd eu cael nhw i'r lefel angenrheidiol er mwyn astudio'n llwyddiannus ar lefel TGAU."**
> Sylw gan athro

| | Year 7 | Year 8 | Year 9 | Year 10 |
|---|---|---|---|---|
| **Llai nag awr** | 6% | 8% | 11% | 6% |
| **1-2 awr** | 78% | 77% | 66% | 13% |
| **2-3 awr** | 13% | 9% | 17% | 45% |
| **3-4 awr** | 3% | 6% | 6% | 8% |
| Mwy na 4 awr | 0 | 0 | 0 | 28% |

**Tabl 12:** Cyfanswm yr amser wythnosol a neilltuir i Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 ac ym Mlwyddyn 10



## Dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4

O'r 64 o ysgolion a ymatebodd sy'n cynnig darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 10, mae Tabl 13 yn dangos bod 30 o athrawon (hynny yw 47%) wedi adrodd mai dim ond 10% o'u disgyblion Blwyddyn 10 a oedd yn astudio iaith ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall (30 o ymatebion). Nid oedd yr un ysgol ym Mlwyddyn 10 yn yr arolwg lle roedd mwy na 50% o'r garfan yn astudio iaith ryngwladol, ystadegyn sy'n cyd-fynd â chanfyddiadau adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2021.*

At hynny, mae Tabl 14 yn dangos bod athrawon yn adrodd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n astudio iaith ym Mlwyddyn 10 yn dilyn manyleb TGAU, ac mai dim ond llond llaw sy'n astudio ar gyfer Cyfathrebu Busnes Byd-eang Lefel 2 CBAC. Mae'r ffigurau'n awgrymu bod Cyfathrebu Busnes Byd-eang Lefel 2 CBAC a TGAU yn cael eu cynnig ym mhump o'r 64 o ysgolion a ymatebodd.

| 0% | 10% | 20% | 30% | 40% | 50% | 60% | 70% | 80% | 90% | 100% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | 30 | 14 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Tabl 13:** Canran o'r disgyblion ym Mlwyddyn 10 sy'n dysgu iaith ryngwladol ar gyfer eu TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall (e.e. Cyfathrebu Busnes Byd-eang Lefel 2). Adroddwyd mewn niferoedd crai (cyfanswm n=64).

| | |
|---|---|
| **TGAU** | 98% |
| **Cyfathrebu Busnes Byd-eang Lefel 2** | 9% |
| **Arall** | 0 |

**Tabl 14:** Achrediad(au) mae disgyblion yn eu defnyddio ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol Lefel 2

Gofynnodd ein harolwg i athrawon feddwl am y tair blynedd diwethaf a sut roedd cyfran y disgyblion sy'n astudio iaith ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi newid (os o gwbl). Mae canfyddiadau'r athrawon yn Nhabl 15 yn cadarnhau'r ystadegau cenedlaethol a ddangoswyd yng nghyflwyniad yr adroddiad. Roedd 55 y cant o athrawon yn ystyried bod 'llai o ddisgyblion bellach yn astudio iaith ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4', ond mae'n dda gweld bod 10% o'r ysgolion a ymatebodd yn adrodd bod mwy o ddisgyblion yn dewis astudio iaith; yn adroddiad 2021, y ffigur hwn oedd 0.

Mae Tabl 16 yn dangos dull ysgolion ar gyfer cynnig ieithoedd rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae bron i ddwy ran o dair o'r ysgolion yn adrodd nad yw dosbarthiadau'n cael eu cynnal os nad oes digon o ddisgyblion. Mae'r lleiafswm er mwyn cynnal dosbarthiadau yn amrywio rhwng ysgolion, ond mae'r data hwn yn dangos tystiolaeth y gall fod llwybrau at gynnydd yn cael eu cau oherwydd penderfyniadau ar lefel ysgol.

| | |
|---|---|
| Mae ieithoedd rhyngwladol yn orfodol ar gyfer holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 | 0 |
| Mae rhagor o ddisgyblion bellach yn astudio iaith ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 | 10% |
| Mae llai o ddisgyblion bellach yn astudio iaith ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 | 55% |
| Niferoedd tebyg i'r hyn oedd o'r blaen | 16% |
| Dim tuedd amlwg: mae'r niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn | 17% |
| Arall | 2% |

**Tabl 15:** Canfyddiadau athrawon o'r niferoedd sy'n gwneud TGAU yn ystod y tair blynedd diwethaf

| | |
|---|---|
| Nid yw dosbarthiadau'n cael eu cynnal os nad oes digon o ddisgyblion | 63% |
| Mae disgyblion sydd â chyrhaeddiad is yn cael eu hannog i beidio â dewis astudio iaith ryngwladol | 13% |
| Mae'r ysgol yn argymell yn gryf bod yr holl ddisgyblion yn astudio iaith ryngwladol | 2% |
| Mae'r ysgol yn argymell yn gryf bod y disgyblion mwyaf academaidd yn astudio iaith ryngwladol | 2% |
| Mae'r broses amserlennu'n golygu nad oes modd i'r holl ddisgyblion astudio iaith ryngwladol | 31% |
| Mae'n bosib bod rhai disgyblion yn cael eu cynghori gan yr Uwch Dîm Rheoli i beidio ag astudio iaith ryngwladol | 14% |

**Tabl 16:** Dull ysgolion ar gyfer cynnig Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 (caniatawyd mwy nag un ymateb)

## Ieithoedd fel gweithgareddau allgyrsiol

Gofynnom i athrawon adrodd a oedd eu disgyblion ar hyn o bryd yn dysgu unrhyw un o'r Ieithoedd Rhyngwladol canlynol fel gweithgareddau allgyrsiol. Mae data yn Nhabl 17 yn dangos bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi ymateb 'Dim' drwy Gyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4, ac Ôl-16. Mae'n ddiddorol nodi mai Ffrangeg yw'r iaith ryngwladol fwyaf poblogaidd fel gweithgaredd allgyrsiol hefyd, a bod ystod eang o ieithoedd heblaw am y '3 Fawr' yn cael eu cynnig mewn rhai ysgolion.

Nid pob ysgol sydd mewn sefyllfa i gynnig ieithoedd allgyrsiol. Gall adnoddau a chost ariannol eu rhwystro. Meddai un athro:

> **"Cost: fel adran fach (1.5 staff) mae'n anodd cydbwyso llwyth gwaith gyda gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol. All yr ysgol ddim fforddio cynnal cyrsiau iaith ychwanegol na chael cynorthwyydd. Mae arweinwyr yr ysgol yn amharod i ganiatáu i ni gymryd rhan mewn digwyddiadau allanol."**

| | KS3 | KS4 | Post-16 |
|---|---|---|---|
| **Arabeg** | 0 | 1 | 1 |
| **Ffrangeg** | 20% | 19% | 17% |
| **Almaeneg** | 2% | 2% | 2% |
| **Mandarin** | 6% | 2% | 6% |
| **Pwyleg** | 6% | 4% | 2% |
| **Sbaeneg** | 8% | 5% | 2% |
| **Dim** | 60% | 63% | 75% |
| **Arall** | 6% | 7% | 5% |
| | Japaneeg | | |
| | Lladin | Lladin | |
| | Coreëg | Coreëg | Coreëg |
| | Eidaleg | Eidaleg | |
| | | Portiwgaleg | |
| | | R Rwsieg ussian | |

**Tabl 17:** Disgyblion sydd wrthi'n dysgu un o'r Ieithoedd Rhyngwladol canlynol yn allgyrsiol yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4, ac Ôl-16 (caniatawyd sawl ymateb)

## Dimensiwn Rhyngwladol

Mae Tabl 18 yn dangos ymgysylltiad arbennig o dda gyda Llwybrau at Ieithoedd Cymru[13], sef prosiect allgymorth cydweithredol Cymru gyfan sy'n hyrwyddo gwelededd, proffil a dewis ieithoedd mewn ysgolion, a'r Prosiect Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern[14], sy'n annog dysgu Ieithoedd Rhyngwladol ar lefel TGAU a'r tu hwnt drwy raglen fentora yn y dosbarth ac ar-lein.

Roedd 38% o'r ysgolion a ymatebodd yn ymgysylltu â'u sefydliadau diwylliannol partner dramor, ac mae gan 17% o'r ysgolion un neu fwy o sefydliadau partner dramor. Serch hynny, dim ond 8% o'r ysgolion sy'n cyflogi cynorthwyydd iaith, a thybiwn fod 22% o'r ysgolion wedi dweud wrthym nad oes ganddyn nhw unrhyw weithgareddau rhyngwladol yn eu hysgol.

| | |
|---|---|
| **Mae gan y sefydliad un neu'n rhagor o sefydliadau partner tramor** | 17% |
| **Cyfleoedd rhyngwladol y British Council** | 6% |
| **Rydym yn cyflogi cynorthwywyr iaith** | 8% |
| **Rydym yn gweithio gyda sefydliadau diwylliannol (e.e. Sefydliad Confucius, Goethe-Institut, Institut Français, Consejería de Educación)** | 38% |
| **Rydym yn cymryd rhan yng Nghynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern** | 56% |
| **Rydym yn gweithio gyda Llwybrau at Ieithoedd Cymru** | 78% |
| **Rhagdybir dim** | 22% |

**Tabl 18:** Ymgysylltiad rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd (caniatawyd mwy nag un ymateb)

13 See: https://www.routesintolanguages.ac.uk/activities/cymru
14 See: http://mflmentoring.co.uk/

## Heriau wrth Ddysgu Ieithoedd Rhyngwladol

Gofynnom i athrawon am heriau tybiedig o ran darparu profiadau dysgu iaith o safon i ddisgyblion yn eu sefydliadau. O'r 64 o ysgolion a ymatebodd, roedd yr athrawon yn ystyried mai 'Natur a chynnwys arholiadau allanol' oedd y brif her a'r ail her. Daeth 'Y ffordd y caiff arholiadau allanol eu marcio a'u graddio' yn drydydd, a 'Nid yw ieithoedd yn cael eu hyrwyddo ar lefel ysgol gyfan fel dewis gyrfa' yn bedwerydd. Yn y pumed safle roedd y canfyddiad 'Saesneg Byd-eang (hynny yw pwysigrwydd Saesneg fel un o ieithoedd y byd)' mewn perthynas â'r heriau yn darparu profiadau dysgu ieithoedd o ansawdd uchel.

## Effaith bosibl y Cwricwlwm newydd i Gymru o 2022 ymlaen

Gofynnodd yr arolwg i'r athrawon feddwl am y tebygolrwydd y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn gwella'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru gan fod Ieithoedd Rhyngwladol wedi'u cynnwys o dan Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mynegodd 21 o athrawon 'Ddim yn debygol iawn', wedi'i ddilyn gan 'Annhebygol iawn' ac 'Eithaf tebygol' gydag 13 o ymatebion, yn y drefn honno.

Mae Tabl 20 yn dangos bod hanner yr athrawon yn ystyried bod eu hysgol 'wedi gwneud newidiadau eisoes i baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022' drwy gydweithio o fewn eu Maes Dysgu a Phrofiad.

| | |
|---|---|
| **Tebygol iawn** | 1 |
| **Eithaf tebygol** | 13 |
| **Ddim yn debygol iawn** | 21 |
| **Annhebygol iawn** | 13 |
| **Ddim yn gwybod** | 4 |

**Tabl 19:** Ymatebion athrawon i'r cwestiwn, 'Yn eich barn broffesiynol, pa mor debygol yw hi y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn gwella'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru gan fod ieithoedd rhyngwladol wedi'u cynnwys o dan Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu?' Adroddwyd fel niferoedd crai.

| | |
|---|---|
| **Wedi gwneud rhai newidiadau eisoes i baratoi ar gyfer hyn** | 50% |
| **Rhai cynlluniau a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ddiweddarach** | 22% |
| **Yn rhan o drafodaethau, ond dim cynlluniau cadarn eto** | 22% |
| **Ddim wedi bod yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer hyn eto** | 6% |

**Tabl 20:** Ymatebion athrawon i'r cwestiwn, 'I ba raddau mae eich adran ieithoedd rhyngwladol wedi bod yn cydweithio o fewn eich Maes Profiad Dysgu ac ar draws yr ysgol gyfan i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru?'

# Darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol ôl-16 mewn ysgolion

Mae Tabl 21 yn dangos bod yn agos at hanner yr ymatebwyr wedi adrodd nad oes gan eu hysgolion ddarpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol ôl-16. Adroddodd un rhan o dair o'r athrawon nad oes ganddyn nhw ddarpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol ôl-16 a gaiff ei darparu'n gyfan gwbl yn eu hysgol.

Yn ein set ddata nid oedd unrhyw dystiolaeth o addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ôl-16 mewn ysgolion heblaw am y '3 Fawr', sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Mae 96 y cant o'r rhai a ymatebodd oedd â darpariaeth ôl-16 yn cynnig Ffrangeg, gyda 48% o'r ysgolion yn cynnig Almaeneg a/neu Sbaeneg.

> **"Mae Safon Uwch Iaith Ryngwladol yn cael ei ystyried fel cymhwyster anodd. Mae profiadau gydag arholiadau TGAU yn gallu digalonni disgyblion medrus sy'n cael gradd uchel hyd yn oed. Nid yw anrhagweladwyedd a chynnwys anffodus weithiau yn yr arholiadau yn meithrin hyder disgyblion, ac mae'n eu hannog i beidio â dewis risg bellach gyda Safon Uwch. Mae gan Wyddoniaeth a Mathemateg broffil llawer cryfach yn perswadio disgyblion bod angen iddyn nhw astudio eu pynciau."**
> Sylw gan athro

> **"Nid yw Almaeneg wedi cael ei chynnig ar gyfer Safon Uwch ers wyth mlynedd yn absenoldeb niferoedd digonol. Mae Ffrangeg wedi cael ei chynnig oherwydd amgylchiadau (disgyblion yn gweithio ar amserlen lawer llai ar gyfer Ffrangeg (dwy awr y bythefnos) a rhoi gwersi ychwanegol yn fy nghyfnodau rhydd a/neu ar ôl ysgol. Nid yw Sbaeneg wedi cael ei chynnig ar gyfer Safon Uwch eto oherwydd niferoedd isel, ond bydd ar gael cyn gynted ag y mae digon o ddisgyblion TGAU yn mynegi'r awydd i barhau â'r pwnc i Safon Uwch."**
> Sylw gan athro

Gofynnon ni i'r athrawon, o blith y disgyblion sy'n astudio iaith neu ieithoedd rhyngwladol fel pwnc Safon Uwch, faint ohonyn nhw sy'n ystyried astudio iaith ryngwladol yn y brifysgol? Yr ateb mwyaf cyffredin oedd un disgybl yn y dosbarth. Mae sylw'r athro hwn yn cyfleu sut y gwnaeth llawer ymateb i'n gofod ar gyfer sylwadau agored ac yn adlewyrchu'r rhwystredigaeth mae llawer o athrawon dosbarth yn ei theimlo:

> **"Os ydyn ni am gyflawni niferoedd uwch o ymgeiswyr ôl-16, mae angen cyllid ar ysgolion i gyflogi Cynorthwywyr Iaith y British Council bob blwyddyn. Mae angen i arholiadau iaith gael eu dylunio a'u marcio'n deg o gymharu â phynciau eraill. Rhaglen gynhwysfawr o sgyrsiau am yrfaoedd wedi'u hariannu a'u trefnu gan gonsortia lleol. Does gan athrawon ysgol ddim amser/adnoddau i wneud hyn eu hunain, yn enwedig wrth ystyried y baich hynod drwm rydyn ni wedi'i ysgwyddo dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydyn ni wedi gorfod delio gyda darpariaeth ddysgu ar-lein, darpariaeth dal i fyny ar gyfer pob grŵp blwyddyn, Graddau a Bennwyd gan y Ganolfan am y ddwy flynedd ddiwethaf, newidiadau dryslyd, a dibwrpas yn y pen draw, i arholiadau 2022, gorfod cynnal arholi Ieithoedd Rhyngwladol Safon Uwch ein hunain, a hynny gan gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. Os yw hynny'n ymddangos fel llawer, yna mae wedi bod, mae athrawon ieithoedd rhyngwladol yn parhau i weithio'n eithriadol o galed i hyrwyddo ein pynciau."**
> Sylw gan athro

| | |
|---|---|
| **Oes, mae'n cael ei darparu'n gyfan gwbl yn fy ysgol** | 36% |
| **Oes, mae'n cael ei darparu ar y cyd gydag ysgol arall** | 3% |
| **Oes, mae'n cael ei darparu'n gyfan gwbl gan ysgol arall** | 5% |
| **Nac oes** | 47% |
| **Arall** | 9 |

**Tabl 21:** Ymatebion athrawon i'r cwestiwn, 'A oes gan eich ysgol ddarpariaeth ieithoedd rhyngwladol ôl-16?'

# Edrych ar Dueddiadau Rhyngwladol Dysgu Ieithoedd mewn Colegau Ôl-16

Ymatebodd naw o'r 13 coleg ôl-16 posib i'n harolwg. O ystyried y nifer fach, adroddir y ffigurau yn yr adran hon fel niferoedd crai.

Nid oedd yr un coleg yn cynnig cymwysterau iaith galwedigaethol, ac roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar Safon Uwch Ffrangeg, Almaeneg, a Sbaeneg. Mae dau goleg yn cynnig cyfleoedd i ailsefyll TGAU Ffrangeg a/neu Almaeneg a/neu Sbaeneg i'r disgyblion hynny sydd wedi methu iaith yn y system ysgol. Adroddodd un o'r naw coleg a ymatebodd nad oedd dim dysgu ieithoedd rhyngwladol ar gael ym mlwyddyn academaidd 2021/22.




## Yr Ieithoedd a Addysgir

Addysgir Ffrangeg Safon Uwch yn wyth o'r naw coleg a ymatebodd, Sbaeneg mewn chwe choleg, ac Almaeneg mewn tri choleg, gan gynnwys un sydd wedi cyflwyno Almaeneg yn ddiweddar. Roedd colegau'n fwy tebygol o adrodd bod y niferoedd sy'n astudio ieithoedd wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf, gyda dau goleg yn adrodd yn falch bod eu niferoedd Sbaeneg Safon Uwch wedi cynyddu.

> **"Fe sylwon ni ar ostyngiad cyflym yn ein niferoedd ym mis Medi 2019. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r garfan gyntaf oedd newydd sefyll y TGAU newydd, a allai fod wedi cael ei weld yn fwy heriol. Yn ogystal, penderfynodd ein sefydliad wneud astudio Bagloriaeth Cymru yn orfodol. Roedd hyn yn golygu pan oedden ni'n arfer cael dysgwyr yn gwneud tri phwnc gwyddoniaeth a iaith yn y gorffennol, roedd yn rhaid i'r disgyblion hyn ddisodli astudio iaith gyda Bagloriaeth Cymru."**
> Darlithydd coleg Ôl-16

O ran nifer y myfyrwyr sy'n astudio iaith ryngwladol ym Mlwyddyn 12 mewn colegau ôl-16, soniodd yr ymatebwyr wrthym am niferoedd amrywiol rhwng colegau.


Pan fo 5 myfyriwr neu lai, dywedodd darlithwyr wrthym fod dosbarthiadau yn aml yn cael eu cynnal ar amserlen lai. Mae ein data'n awgrymu bod awydd ymhlith uwch dimau arwain mewn colegau i ganiatáu i Ieithoedd Rhyngwladol gael eu cynnal pan fydd galw ymhlith myfyrwyr.




**Ffigur 9:** Nifer y myfyrwyr sy'n astudio iaith ryngwladol ym Mlwyddyn 12 mewn colegau ôl-16

## Y Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022 – safbwynt colegau ôl-16

Gofynnom i ddarlithwyr mewn colegau ôl-16 pa mor debygol yw hi y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn gwella'r sefyllfa ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru gan fod ieithoedd rhyngwladol wedi'u cynnwys o dan Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu:




**Ffigur 10:** Pa mor debygol yw hi y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn gwella'r sefyllfa ar gyfer dysgu ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru

## Dimensiwn Rhyngwladol

Adroddodd pob coleg o leiaf un cyfle i'w myfyrwyr a'u staff gael profiad rhyngwladol. Mae Ffigur 11 yn dangos bod ymgysylltiad da gyda Llwybrau at Ieithoedd Cymru a cheisiadau i'r Cynllun Turing newydd ar gyfer profiadau ymweld allanol.

Nid oedd chwe choleg yn cyflogi cynorthwyydd iaith. Y prif resymau a nodwyd am y penderfyniad hwn oedd niferoedd isel o ddysgwyr a diffyg arian. Dywedodd un ymatebwr:

> **"Dylid adfer Cynorthwywyr Ieithoedd Modern drwy gydol y system ysgol ac ailwampio Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, i sicrhau nifer dda o fyfyrwyr ar lefel ôl-16."**

Yn adroddiad Tueddiadau Ieithoedd 2021, adroddom ar y buddsoddiad sylweddol mewn Cynorthwywyr Ieithoedd Modern yn Iwerddon, lle mae Gwyddeleg a Saesneg yn orfodol yn y system ysgolion, yn debyg i Gymraeg a Saesneg yng Nghymru.

> **"Yng Nghymru mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu a darparu'r Gymraeg, gyda dyhead i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog. Mae hyn wedi bod ar draul datblygiad ieithoedd rhyngwladol yn fy marn i. Byddai angen i unrhyw gwricwlwm newydd roi mwy o barch i Ieithoedd Rhyngwladol o Addysg Gynradd hyd at Uwchradd. Nid yw safon addysgu Cymraeg yn gyson uchel drwy addysg gynradd yng Nghymru, a bydd unrhyw brofiad gwael o ddysgu iaith yn lleihau brwdfrydedd i ddysgu ieithoedd eraill, ac felly erbyn i Ieithoedd Rhyngwladol gael eu cyflwyno yn yr ysgol uwchradd, yn aml mae'r difrod wedi'i wneud. Mae cysylltu darparwyr Ieithoedd Modern Tramor mewn Prifysgolion a cholegau Addysg Bellach gydag Ysgolion Cynradd ac Uwchradd lleol yn hanfodol."**
> Darlithydd Addysg Bellach




**Ffigur 11:** Cyfleoedd ar gyfer profiad rhyngwladol mewn colegau ôl-16

# Casgliad

Mae dealltwriaeth o ieithoedd wedi bod yn allweddol ers amser maith i gyfoethogi bywydau a chyfrannu at dwf a ffyniant yng Nghymru. Yn dilyn arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* eleni ar ôl y pandemig, mae angen i ni nawr yn fwy nag erioed wrando ar athrawon a dysgwyr am yr hyn sy'n digwydd i gyfleoedd dysgu ieithoedd yn eu hysgolion a'u dosbarthiadau.

O'n harolwg o ysgolion cynradd, mae tystiolaeth gadarnhaol o dwf mewn cyfleoedd i ddysgu ieithoedd wrth i'r nifer o ysgolion sy'n adrodd am addysgu iaith ryngwladol fel rhan o'u cwricwlwm gynyddu o 28% yn 2016 i 39% yn 2019, i ffigur eleni, sef 41%. Mae cyflwyno gorfodaeth i ddysgu iaith ryngwladol mewn ysgolion cynradd fel rhan o Gwricwlwm i Gymru 2022 yn gam i'w groesawu. Serch hynny, mae'n hanfodol amlygu yn yr adroddiad hwn bod gwreiddio iaith ryngwladol yn faes anghyfarwydd i'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r darganfyddiad pellach nad oes gan y rhan fwyaf o ysgolion gysylltiadau rhyngwladol gydag ysgolion partner dramor, dim prosiectau rhyngwladol, ac nad ydynt chwaith yn cynnal cynorthwywyr iaith, yn un anffodus, o ystyried y gallai'r cysylltiadau hyn gefnogi ysgolion i droedio'r dirwedd hon. At hynny, nid yw'n ymddangos bod cefnogaeth drwy gysylltiadau ag adrannau iaith ysgolion uwchradd cyfagos ar gyfer pob ysgol gynradd. Mae hwn yn gyfle i ddysgu gan eraill, rhannu gwybodaeth ac arferion da y mae llawer o ysgolion cynradd yn ei fethu, yn enwedig wrth i arolwg eleni ddangos ymgysylltiad cadarnhaol ysgolion uwchradd gyda Llwybrau at Ieithoedd Cymru[4], a'r Cynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern[5].

Ar gyfer yr ysgolion cynradd hynny a lwyddodd i gynnig Ieithoedd Rhyngwladol yn 2021/22, dim ond un rhan o dair o'r athrawon sy'n addysgu ieithoedd dderbyniodd ddysgu proffesiynol pwnc benodol yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf.

Mae'r diffyg hwn mewn hyfforddiant i athrawon dosbarth hefyd wedi'i adlewyrchu wrth ddarganfod, yn un ymhob pump ysgol, na fyddai gan yr athro sydd wedi'u pennu i ddarparu ieithoedd ddim cymhwyster mewn Ieithoedd Rhyngwladol. Felly, er y dylid dathlu cyflwyno ieithoedd fel pwnc gorfodol yn y cwricwlwm cynradd, nid yw, ar ei ben ei hun, yn mynd i wyrdroi'r duedd mewn dysgu ieithoedd. Gan weithio ar y cyd â pholisi cwricwlwm, mae'n hanfodol bod digon o gefnogaeth i sicrhau bod cynnydd disgyblion mewn dysgu ieithoedd yn gynnar ar lefel gynradd, drwy amser pwrpasol a neilltuedig ar gyfer dysgu iaith nad yw'n llai nag awr yr wythnos, a thrwy adnoddau arloesol a rhannu arbenigedd ieithyddol ac addysgegol. At hynny, mae cyfle euraidd mewn trafodaethau ôl-bandemig i adfywio amrywiaeth yr Ieithoedd Rhyngwladol a addysgir, a'r cysylltiadau lleol a byd-eang sy'n hwyluso dysgu ieithoedd. Cymerodd llawer o athrawon amser i gydnabod y gefnogaeth sydd ar gael i'r Gymraeg, a bydden nhw'n croesawu cefnogaeth debyg i Ieithoedd Rhyngwladol.

Ar gyfer cyd-destunau ôl-gynradd, dylai'r gostyngiad brawychus yn nifer yr ymgeiswyr TGAU a Safon Uwch mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg rhwng 2021 a 2022 gael ei ddehongli fel rhybudd ar y lefel uchaf. Gyda gostyngiad pellach eleni yn nifer y disgyblion sy'n gwneud TGAU a Safon Uwch Almaeneg, mae'n fwy tebygol y bydd ein rhagfynegiad ystadegol o adroddiad *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* 2021, sef y bydd llai na 100 o ddisgyblion yn sefyll TGAU Almaeneg yng Nghymru erbyn 2030, yn dod yn wir. Oni bai bod ymagwedd gydweithredol yn cael ei defnyddio i fynd i'r afael â'r duedd hon a'i gwyrdroi, mae'n debygol y bydd y pwnc yn diflannu o system ysgolion Cymru o fewn y deng mlynedd nesaf. Byddai hyn yn ergyd hynod drom i Gymru ar lwyfan rhyngwladol, gan fod yr Almaen yn un o bartneriaid masnachu pwysicaf Cymru, gyda bron i un ymhob pump o allforion Cymru yn mynd i'r Almaen.

Mae angen dirfawr bellach am fuddsoddiad strategol i alluogi cyfleoedd i bob disgybl ddysgu ieithoedd a llunio llwybrau at Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16. Mae bron i ddwy ran o dair o'r ysgolion yn adrodd nad yw dosbarthiadau iaith yn cael eu cynnal os nad oes digon o ddisgyblion yn ymrestru. Er bod yr isafswm o ddisgyblion sydd eu hangen i ddarparu dosbarthiadau yn amrywio rhwng ysgolion, mae'n amlwg bod llwybrau cynnydd ar gyfer dysgwyr ieithoedd yn cael eu rhwystro oherwydd penderfyniadau ar lefel ysgol. Nid yw pob ysgol mewn sefyllfa i gynnig ieithoedd yn allgyrsiol, gan gyfeirio at adnoddau a chostau ariannol fel rhwystrau. Nid oes gan bron i hanner yr ysgolion a ymatebodd i arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* eleni unrhyw ddarpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol ôl-16. Nid oes digon o fyfyrwyr mewn colegau ôl-16 yn cael cyfle un ai i astudio iaith neu i ailsefyll TGAU a fethwyd yn flaenorol. Nid yn unig y mae'r dystiolaeth hon ar lefel ôl-gynradd yn cyfleu darlun llwm o'r presennol, ond mae hefyd yn awgrymu nad yw'r maeth sydd ei angen i gynnal y sylfaen ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yn y sector cynradd yn cael ei ddarparu.

Er mwyn dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen, mae angen buddsoddiad a chreadigrwydd yn nodi'r arferion gorau yn y sefydliadau ôl-gynradd hynny lle mae ieithoedd rhyngwladol yn iach, ac yna datblygu ffordd y gellid rhannu ac, yn wir, ddyblygu'r rheiny yn systematig. Gallai dealltwriaeth a rennir well o anghenion cyflogaeth a'r diwydiant mewn perthynas â ieithoedd agor llwybrau newydd at hyrwyddo ieithoedd, yn ogystal ag archwilio posibiliadau o gynnwys ieithoedd rhyngwladol mewn cyrsiau galwedigaethol mewn colegau ôl-16.

Mae *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* 2022 yn alwad frys i weithredu er mwyn gweld cydweithio a chreadigrwydd ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru.



# Llyfryddiaeth Gyfeiriadau


Ayres-Bennett, W., Hafner, M., Dufesne, E. ac Yerushalmi, E. (2022) *The economic value to the UK of speaking other languages.* RAND Corporation.

Braun, V. a Clarke, V. (2006) 'Using thematic analysis in psychology.' *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2), tt. 77-101.

Collen, I., O'Boyle, A. ac O'Neill, S. (2021) *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* y British Council: [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).

Gorrara, C., Jenkins, L., Jepson, E. a Machin, T. (2020) 'Multilingual perspectives: preparing for language learning in the new curriculum for Wales', *The Curriculum Journal*, 31(2), tt. 244-257.

Graham, S., Courtney, L., Marinis, T. a Tonkyn, A. (2017) Early Language Learning: The Impact of Teaching and Teacher Factors. *Language Learning*, 67: 922-958. **https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/lang.12251**

Henderson, L. a Carruthers, J. (2021) 'Socio-economic factors, school type and the uptake of languages: Northern Ireland in the wider UK context', *The Language Learning Journal*. DOI: **https://doi.org/10.1080/09571736.2021.1888151**

Jones, C. (2019) *Addysg Addas ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru: Papur Gwyn i'w Drafod.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/10/WELSH-2019-10-16-Fit-for-the-Future-Education-in-Wales-1.pdf**.

Llywodraeth Cymru (2015) *Dyfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015-2020.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/dyfodol-byd-eang-cynllun-i-wella-a-hyrwyddo-ieithoedd-tramor-modern.pdf** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: *Miliwn o siaradwyr.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf** (Cyrchwyd 8 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2019) *Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/cynllunio-eich-cwricwlwm/** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2020a) *Foreign language teaching policy in primary schools: Cymru.* Ymchwil mewn Ieithoedd Cynradd. [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://ripl.uk/foreign-language-teaching-policy-in-primary-schools-wales/** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2020b) D*yfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2020 i 2022.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/cynllunio-eich-cwricwlwm/** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2020c) *Adroddiad Cryno 5 Mlynedd Dyfodol Byd-eang 2015 i 2020.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://llyw.cymru/adroddiad-cryno-5-mlynedd-dyfodol-byd-eang-2015-i-2020** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2021a) *Amserlen cau ysgolion yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19), Mawrth 2020 i Ebrill 2021.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://llyw.cymru/amserlen-cau-ysgolion-yn-ystod-pandemig-coronafeirws-covid-19** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2021b) *Disgyblion yn bresennol mewn ysgolion a gynhelir: 7 Medi 2020 i 23 Gorffennaf 2021.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-gynhelir-7-medi-2020-i-23-gorffennaf-2021** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).

Llywodraeth Cymru (2021c) *Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026.* [Ar-lein] Ar gael drwy: **https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-datganiad-llesiant-html** (Cyrchwyd 28 Medi 2022).



**© British Council 2022**

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.